

Memorandwm Esboniadol: Bil Iaith Arwyddion Prydain (BSL) (Cymru)

Teitl arfaethedig y Bil (Rheol Sefydlog 26.91A(i))

1. Teitl arfaethedig y Bil yw Bil Iaith Arwyddion Prydain (BSL) (Cymru)¹.

Amcan(ion) polisi arfaethedig y Bil (Rheol Sefydlog 26.91A(ii))

2. Diben y Bil yw gwneud darpariaeth i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o BSL a'i ffurfiau cyffyrddol yng Nghymru; gwella mynediad at addysg, iechyd a gwasanaethau cyhoeddus mewn BSL a chefnogi'r broses o gael gwared ar y rhwystrau sy'n bodoli i bobl fyddar a'u teuluoedd mewn addysg, iechyd, gwasanaethau cyhoeddus, gwasanaethau cymorth ac yn y gweithle.
3. Byddai saith nod llesiant [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#), fel y maent yn ymwneud â BSL, lle mae cyrff cyhoeddus yn ystyried anghenion hirdymor defnyddwyr BSL o bob oedran, yn cael eu cryfhau gan y Bil (mae Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain (BDA) wedi gofyn am ddisodli defnyddwyr gydag arwyddwyr, a byddai hyn yn cael ei gynnwys yn ymgynghoriad y Bil). Byddai hyn yn cefnogi ymrwymiadau presennol gan gynnwys Confensiwn y Cenedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a'r Confensiwn ar Hawliau Pobl ag Anableddau.
4. Byddai'r Bil hefyd yn gweithio tuag at sicrhau nad yw pobl sy'n defnyddio BSL yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r rhai sy'n siarad Cymraeg neu Saesneg, ac yn sicrhau bod gan gymunedau byddar lais yn ystod y broses o gynllunio a darparu gwasanaethau, er mwyn sicrhau eu bod yn diwallu eu hanghenion.

Sefydlu Comisiynydd BSL

5. Byddai'r Bil yn sefydlu Comisiynydd BSL gyda'r un pwerau â Chomisiynwyr ieithoedd lleiafrifol eraill fel ym [Mesur y Gymraeg \(Cymru\) 2011](#); [Deddf yr Iaith Aeleg \(yr Alban\) 2005](#), a'r [Ddeddf Hunaniaeth ac Iaith \(Gogledd Iwerddon\) 2022](#). Byddai hyn yn dangos cefnogaeth sylweddol i gymunedau sy'n defnyddio/arwyddo BSL yng Nghymru.
6. Disgwylir y bydd y Comisiynydd BSL yn:
 - llunio safonau BSL;
 - sefydlu panel cyngori BSL;
 - llunio adroddiadau bob pum mlynedd yn BSL, Cymraeg a Saesneg ar sefyllfa BSL yn y cyfnod hwnnw;
 - darparu arweiniad a phroses i gyrff cyhoeddus hyrwyddo a hwyluso

¹ Fel sy'n ofynnol yn ôl Rheol Sefydlog 26.91B, rwyf o'r farn bod yr amcan polisi hwn yn gyson â'r hyn a nodwyd yn y wybodaeth a gyflwynwyd gennyf cyn y balot. Mae'r wybodaeth ychwanegol o dan 'Amcanion Polisi'r Bil' (o gymharu â'r wybodaeth sydd wedi'i chynnwys yn y wybodaeth a gyflwynwyd cyn y balot), wedi'i darparu er mwyn nodi'n gliriach i'r Aelodau fy syniadau ynghylch sut y gellir cyflawni'r amcan polisi.

BSL yn eu priod barthau;

- sefydlu gweithdrefn ar gyfer ymchwilio i gwynion.

7. Bydd natur a statws y Comisiynydd yn cael eu datblygu ymhellach mewn cydweithrediad â rhanddeiliaid, gan gynnwys Llywodraeth Cymru, wrth i'r Bil fynd rhagddo.

Gosod dyletswydd adrodd ar y Comisiynydd, cyrff cyhoeddus a Llywodraeth Cymru

8. Bydd y Bil yn gosod dyletswydd ar gyrff cyhoeddus i adrodd ar eu cynnydd o ran hyrwyddo a hwyluso BSL drwy gylch adrodd [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#).

9. Byddai hefyd yn rhoi dyletswydd ar Lywodraeth Cymru i baratoi a chyhoeddi adroddiad BSL blynyddol sy'n disgrifio'r hyn y mae adrannau Llywodraeth Cymru wedi'i wneud i hyrwyddo'r defnydd o BSL.

10. Byddai sicrhau bod BSL yn cael ei chynnwys yng nghylch Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol yn ymgorffori BSL yn y fframweithiau polisi a chyfreithiol presennol yng Nghymru. Byddai hyn yn sicrhau bod adnoddau'n cael eu rhannu'n gost-effeithiol drwy ddefnyddio strwythurau presennol i greu cymdeithas decach ar gyfer arwyddwyr BSL yng Nghymru yn y tymor hir.

Yr angen am Gomisiynydd BSL

- Llunio safonau BSL.
- Darparu arweiniad a phroses i gyrff cyhoeddus hyrwyddo a hwyluso BSL yn eu priod barthau.
- Monitro'r broses weithredu

11. Mae defnyddwyr/arwyddwyr BSL byddar a sefydliadau a arweinir gan y gymuned Fyddar yn sôn yn rheolaidd am heriau sylweddol o ran cyflogaeth, gofal iechyd ac addysg oherwydd diffyg mynediad i BSL. Byddai llunio safonau BSL yn sicrhau bod canllawiau cyfathrebu clir yn cael eu dosbarthu ar draws cyrff a gwasanaethau cyhoeddus Cymru a bod y cyrff a gwasanaethau hynny'n cydymffurfio â hwy, ac yn gosod rhwymedigaeth i hyrwyddo a hwyluso BSL.

12. Ni sefydlwyd safonau BSL erioed. Mae pobl fyddar a sefydliadau sy'n cael eu harwain gan y gymuned Fyddar yn nodi bod hyn yn arwain at ddadleuon chwyrn neu unigolion yn camfanteisio ar eu sefyllfa er budd personol ac er elw ar draul y gymuned fyddar, sy'n arwain at weithwyr iaith proffesiynol yn defnyddio BSL o safon is. Achos penodol dan sylw yw'r defnydd o gyfieithwyr BSL heb gymwysterau/cofrestrriad ar gyfer cyfathrebiadau swyddogol. Mae BSL o safon wael yn troi'n fater diogelu, mae'n llesteirio datblygiad ieithyddol ac yn ei dro yn amddifadu pobl o'u hiaith. Mae hyn yn arwain at oedi o ran datblygiad

gwybyddol a chymdeithasol-emosiynol, yn cael effaith ar gyflawniad addysgol, ac yn achosi problemau iechyd meddwl, sydd i gyd yn creu baich cost uwch.

13. At hynny, ar ôl cael cofrestriad proffesiynol gyda'r Cofrestrau Cenedlaethol o Weithwyr Proffesiynol Cyfathrebu sy'n gweithio gyda Phobl Fyddar a Phobl Fyddar a Dall (NRCPD), nid yw gweithwyr proffesiynol byth yn cael eu hasesu eto i sicrhau bod eu sgiliau o'r safon ofynnol. Mae angen gwneud gwaith i sicrhau bod gweithwyr iaith proffesiynol yng Nghymru yn cael eu cefnogi i gadw safonau'n uchel. Mae hefyd angen cynyddu nifer y gweithwyr iaith proffesiynol yng Nghymru, gan fod prinder ar hyn o bryd, gyda 51² o Ddehonglwyr iaith Arwyddion cofrestredig ar gyfer poblogaeth BSL amcangyfrifedig yng Nghymru o rhwng 5,600 a 7,300³. Mae'r rhan fwyaf o Ddehonglwyr iaith Arwyddion cofrestredig yn byw yn ne-ddwyrain Cymru, sy'n ei gwneud yn anodd i unigolion byddar yng ngorllewin Cymru, canolbarth Cymru a gogledd Cymru gael mynediad at eu gwasanaethau.

- Sefydlu Panel Cynggori BSL.

14. Mae arwyddwyr BSL byddar yng Nghymru yn aml yn cael llai o sylw na phobl sy'n clywed a'r rhai y tu allan i Gymru sy'n dominyddu'r dirwedd BSL. Byddai Panel Cynggori BSL yn cynnwys arwyddwyr BSL o Gymru sy'n deall y problemau a wynebier gan arwyddwyr BSL byddar yng Nghymru ac yn benodol, yr amrywiadau rhanbarthol sy'n bodoli yng Nghymru y mae'n rhaid eu cadw. Bydd y Panel hefyd yn gallu rhoi cyngor clir i Gomisiynydd BSL ynghylch materion polisi, a rhoi arweiniad i wasanaethau cyhoeddus Cymru ar sut i ymgysylltu ag arwyddwyr BSL yng Nghymru a sicrhau eu bod yn rhan o'r broses gynllunio a darparu.

- Llundio adroddiadau bob pum mlynedd yn BSL, Cymraeg a Saesneg ar sefyllfa BSL yn y cyfnod hwnnw.

15. Ar hyn o bryd nid oes unrhyw wybodaeth am statws BSL yng Nghymru ar wahân i'r Cyfrifiad, sydd â'i ddiffygion ei hun o ran cofnodi data perthnasol. Mae angen tystiolaeth felly o'r hyn sy'n digwydd o amgylch y wlad fel bod y Comisiynydd BSL yn gallu gosod safonau, polisiau a chanllawiau ar gyfer gwasanaethau cyhoeddus.

16. Byddai adroddiadau yn caniatáu i gynnydd gael ei olrhain, ac i dueddiadau gael eu meincnodi dros dymor hwy, a gellid defnyddio hyn, yn ei dro, ar gyfer strategaeth hirdymor. Gallai lywio penderfyniadau polisi a sicrhau tryloywder ac atebolrwydd, gan feithrin perthynas dda ag arwyddwyr BSL yng Nghymru yn ei

² Foulkes, Helen. 'An Analysis of Extralinguistic Factors That Impact Deaf Translators' BSL Output for S4C Programmes'. Prifysgol Heriot-Watt, 2023.

³ Bowen, R. a Holtom, D. (2020). [Adolygiad Annibynnol o ddarpariaeth iaith Arwyddion Prydain \(BSL\) i Oedolion yng Nghymru. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, adroddiad GSR rhif 4/2020.](#)

dro.

- Sefydlu gweithdrefn ar gyfer ymchwilio i gwynion.

17. Prin yw'r llwybrau i arwyddwyr BSL gyflwyno cwynion yng Nghymru, yn enwedig gan fod prosesau cwyno fel arfer yn Gymraeg neu Saesneg.
18. Ar hyn o bryd, mae arwyddwyr BSL yng Nghymru yn wynebu rhwystrau gweinyddol a chyfreithiol sylweddol o ran cael mynediad at wasanaethau cyhoeddus. Er enghraifft, efallai y byddant yn mynd i apwyntiadau meddygol lle nad oes Cyfieithydd BSL/Saesneg/Cymraeg wedi'i drefnu. Ymddengys bod hyn yn digwydd yn aml nid yn unig mewn lleoliadau iechyd, ond ar draws yr ystod lawn o wasanaethau cyhoeddus, fel y nodir yn [Archwiliad Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain o Lywodraeth Cymru ar gyfer Adroddiad Siarter Iaith Arwyddion Prydain 2022](#) a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru.
19. Ffactor sy'n gwaethgu'r diffyg mynediad hwn yw nad yw'r dull hwn o ddarparu gwasanaethau yn cael ei herio gan nad yw arwyddwyr byddar yng Nghymru yn gallu cael mynediad at y mecanweithiau gorfodi a chwyno sydd ar waith. Dylai sefydlu gweithdrefn gwyno BSL fynd i'r afael â materion sy'n ymwneud â'r ddarpariaeth BSL mewn gwasanaethau cyhoeddus. Bydd hyn yn hybu atebolrwydd ac yn lleihau'r posibilrwydd y bydd cyrff cyhoeddus yn cael eu herlyn am esgeulustod. Bydd y gallu i feithrin prosesau cwyno mewn BSL hefyd yn gwella boddhad dinasyddion ac yn golygu y gellir cyflawni amcanion llesiant hirdymor.

Gweithio tuag at sicrhau nad yw pobl fyddar sy'n defnyddio BSL yn cael eu trin yn llai ffafriol na'r rhai sy'n siarad Cymraeg neu Saesneg

leithoedd Arwyddion

20. Mae ieithoedd arwyddion yn ieithoedd llawn sydd â'u cymunedau, eu hanes a'u diwylliannau eu hunain. Mae Ffederasiwn Pobl Fyddar y Byd, sy'n cynnwys 136 o gymdeithasau pobl fyddar cenedlaethol ymhlith ei aelodau, yn pwysleisio pwysigrwydd meithrin amgylchedd ieithyddol a diwylliannol cadarnhaol fel y gall plant byddar dyfu i fyny gydag ymdeimlad dwfn o hunaniaeth a balchder yn eu treftadaeth fyddar.
21. Mae BSL, sef y ffurf fwyaf cyffredin ar iaith arwyddion yn y DU, yn iaith ystumiol-weledol gyfoethog sydd â gramadeg penodol sy'n defnyddio siapiau llaw, mynegiant wyneb, ystumiau ac iaith y corff i gyfleu ystyr. Mae'n helpu i feithrin ymdeimlad o gymuned a pherthyn ymhlith pobl Fyddar ac mae'n amlygu diwylliant, hunaniaeth, cymuned a hanes pobl f/Fyddar, gan adlewyrchu nodweddion unigryw yn eu plith.

22. Mae Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain yn nodi nad iaith yn unig yw BSL; mae hefyd yn borth i gyfleoedd dysgu, ac yn fodd i bobl Fyddar oroesi a ffynnu mewn byd sy'n clywed.
23. Er bod Llywodraeth Cymru wedi cydnabod BSL fel iaith yn ei rhinwedd ei hun yn 2004, bu galwadau ers tro i roi statws cyfreithiol llawn i BSL yng Nghymru.

Cyrhaeddiad addysgol

24. Nid yw byddardod yn anhawster dysgu, ond mae plant byddar o dan anfantais oherwydd yr anghyfartalwch parhaus mewn canlyniadau. Mae Cymdeithas Genedlaethol y Plant Byddar wedi nodi bod [y Cod Anghenion Dysgu Ychwanegol](#) (ADY) yn datgan bod plant a phobl ifanc fyddar, ochr yn ochr â'r rhai sy'n ddall neu â nam ar eu golwg, "yn fwy tebygol o fod ag ADY yn rhinwedd y ffaith bod y nam yn debygol o'u hatal neu eu rhwystro rhag defnyddio cyfleusterau addysgol neu hyfforddi ac mae'n debygol o alw am Ddarpariaeth Dysgu Ychwanegol".
25. Yn gyffredinol, mae cyrhaeddiad addysgol dysgwyr B/byddar yn is o gymharu â phlant sy'n clywed⁴. Mae plant B/byddar tua 26 y cant yn llai tebygol o gyflawni graddau A*-C yn y pynciau craidd, sef Saesneg, Cymraeg, Mathemateg a Gwyddoniaeth na'u cyfoedion sy'n clywed.
26. At hynny, y bwlch cyrhaeddiad rhwng plant B/byddar (mae Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain wedi gofyn bod y term 'Byddar' yn cael ei ddefnyddio yn lle B/byddar, a byddai hyn yn cael ei gynnwys yn yr ymgynghoriad ar y Bil) a'u cyfoedion sy'n clywed yng Nghyfnod Allweddol 2 yw tua 6.9 y cant. Mae ystadegau hefyd yn dangos bod 86 y cant o blant B/byddar yn cyflawni Dangosydd y Cyfnod Sylfaen o gymharu â 96 y cant o blant sy'n clywed.
27. Mae tystiolaeth hefyd yn awgrymu y gall plant sydd â mynediad annigonol at unrhyw fath o iaith brofi amddifadedd iaith. Mae gan hyn ganlyniadau gydol oes difrifol o ran datblygiad ieithyddol, emosiynol a gwybyddol plant byddar, yn ogystal â'u llesiant. Ar hyn o bryd nid oes rhaglen genedlaethol o ddarpariaeth BSL yn ystod y blynyddoedd cynnar ar gyfer plant byddar yn y DU.
28. Mae gan lawer o arwyddwyr BSL Byddar oedran darllen a deall is na'r boblogaeth gyffredinol o ganlyniad i allgáu ieithyddol, a gallant wynebu allgáu cymdeithasol o ganlyniad uniongyrchol i hyn, a all gael effaith andwyol ar gyflogaeth, addysg a gofal iechyd.

Cefnogi defnyddwyr BSL

29. Mae Comisiynydd Plant Cymru wedi nodi'n flaenorol bod diffyg cymorth ar gael i sicrhau y gall aelodau o'r teulu ddefnyddio BSL, gyda diffyg sgiliau cyfathrebu,

⁴ Cymdeithas Genedlaethol Plant Byddar Cymru, ffigurau Llywodraeth Cymru ar gyrrhaeddiad addysgol, fel ar 23 Chwefror 2021, [link](#)

gan osod rhwystr diangen ac annheg rhwng defnyddwyr BSL a'u teuluoedd⁵. Amcangyfrifwyd bod 90 y cant o blant B/byddar yn cael eu geni i rieni sy'n clywed heb unrhyw brofiad blaenorol o fyddardod, felly gall dysgu bod eu plentyn yn F/byddar fod yn gyfnod emosiynol a dryslyd i rieni a gofawyr plant B/byddar⁶.

Deddfwriaeth bresennol

30. Nid yw'r deddfwriaeth bresennol yn diwallu anghenion defnyddwyr BSL, yn ogystal â'r gymuned F/fyddar ehangach. Mae Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain yn yr Alban, mewn tystiolaeth a gafwyd gan Bwyllgor Addysg a Diwylliant Senedd yr Alban ar [Ddeddf Iaith Arwyddion Prydain \(Yr Alban\) 2015](#), wedi datgan bod Deddf Cydraddoldeb 2010 yn rhoi hawliau i unigolion i'w hamddiffyn rhag gwahaniaethu, ond nid yw'n amddiffyn nac yn hyrwyddo BSL fel iaith⁷.
31. Ym mis Hydref 2018, gwnaed galwadau yng nghynhadledd 'Lend Me Your Ears 2018' yng Ngogledd Cymru i gael deddfwriaeth ynghylch BSL yng Nghymru, gan gyfeirio at Ddeddf Iaith Arwyddion Prydain (BSL) (Yr Alban) 2015 a'r cynllun cysylltiedig, sef Iaith Arwyddion Prydain (BSL): Cynllun Cenedlaethol 2017 i 2023, a gyhoeddwyd ym mis Hydref 2017, a sefydlu Grŵp Cynghori Cenedlaethol sy'n cynnwys hyd at 10 o bobl fyddar sy'n defnyddio BSL fel eu dewis iaith neu eu hiaith gyntaf.
32. Cafodd Bil Aelod Preifat, 'Bil Iaith Arwyddion Prydain' ei gyflwyno yn Nhŷ'r Cyffredin, a chafodd Gydsyniad Brenhinol yn 2022. Mae'r darpariaethau sy'n gysylltiedig â Chymru yn gyfyngedig iawn, gyda dyletswyddau adrodd yn unig yn disgyn ar Ysgrifennydd Gwladol Cymru. Mae'r Bil hwn yn ceisio ymestyn dyletswyddau i Lywodraeth Cymru ar faterion sydd wedi'u datganoli i Gymru.
33. Ar 20 Chwefror 2024, amlinellodd y [Gweinidog Cymunedau yng Nghynulliad Gogledd Iwerddon](#) ei gynlluniau ar gyfer datblygu iaith arwyddion yng Ngogledd Iwerddon, gan gynnwys cyflwyno Bil Iaith Arwyddion.
34. Mae rhagor o fanylion am y cyd-destun deddfwriaethol ar gael yn yr Atodiad i'r Memorandwm Esboniadol hwn.

⁵ Comisiynydd Plant Cymru, *Blwyddyn o Newid 2016-17: Comisiynydd Plant Cymru: Adroddiad Blynyddol a Chyfrifon, fel ar 22 Chwefror 2021*, [linc](#)

⁶ *Lywodraeth Cymru, Adolygiad annibynnol o ddarpariaeth iaith Arwyddion Prydain (BSL) i oedolion yng Nghymru, 1 Ionawr 2020, tudalen 7*, [linc](#)

⁷ *Senedd yr Alban, Pwyllgor Addysg a Diwylliant, adroddiad Cyfnod 1 ar Fil Iaith Arwyddion Prydain (Yr Alban), 27 Ebrill 2015, t.6*, [linc](#)

Manylion unrhyw gefnogaeth a gafwyd i'r Bil, gan gynnwys manylion unrhyw waith ymgynghori a wnaed (SO26.91A(iii))

Cynigion Deddfwriaethol Aelodau:

35. Yn ystod y Bumed a'r Chweched Senedd, cyflwynais Gynigion Deddfwriaethol Aelodau i fesur lefel y gefnogaeth gan Aelodau o'r Senedd ar gyfer Bil a fyddai'n gwneud darpariaeth i annog y defnydd o BSL, yn ogystal â gwella mynediad at addysg a gwasanaethau drwy gyfrwng BSL. Cafodd y cynigion hyn eu trafod ar [24 Chwefror 2021](#) a [7 Rhagfyr 2022](#). Pleidleisiodd y Senedd o blaid fy nghynigion ar y ddau achlysur hyn.
36. Mae nifer o sefydliadau ac unigolion wedi dangos eu diddordeb a'u cefnogaeth i egwyddorion cyffredinol ac amcanion polisi'r Bil.
37. Mae Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar a Thrwm eu Clyw Cymru wedi datgan bod amcanion polisi'r Bil arfaethedig yn gadarnhaol ac yn mynd y tu hwnt i'r darpariaethau yn Neddf Iaith Arwyddion Prydain 2022 y DU drwy gynnwys ymrwymiad i lunio adroddiadau bob 5 mlynedd, a fydd yn rhoi mewnwelediad gwerthfawr i'r cynnydd sy'n cael ei wneud wrth weithredu'r Bil.
38. Er bod Llywodraeth Cymru wedi comisiynu Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain i ddatblygu Siarter BSL newydd i Gymru, dywedodd y Gymdeithas wrthyf fod fy Mil BSL arfaethedig yn gam enfawr ymlaen. Aeth y Gymdeithas ymlaen i ychwanegu mai thema gyffredin sy'n cael ei mynegi gan y gymuned Fyddar yng Nghymru yw'r awydd:
- am fwy o arweinyddiaeth gan y gymuned Fyddar yng Nghymru yn y gwaith o ddarparu gwasanaethau BSL;
 - bod gwasanaethau BSL yn cael eu darparu gan arwyddwyr BSL byddar eu hunain; a
 - bod cymorth ar gael i alluogi pobl Fyddar i arwain gweithgarwch ym meysydd cynllunio proffesiynol a phennu cyllidebau mewn perthynas â materion BSL.
39. Yn ôl Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain, ymddengys mai'r rheswm am hyn yw bod arwyddwyr BSL byddar Cymru wedi gweld Llywodraeth Cymru ac awdurdodau lleol yng Nghymru – gyda'r ewyllys gorau yn y byd – yn gwario arian a glustnodwyd ar gyfer gwasanaethau BSL ar dalu unigolion nad ydynt yn arwyddwyr i ddylunio a darparu gwasanaethau BSL, gan arwain at ganlyniadau dealladwy ac anochel, sef diffyg cyfatebiaeth rhwng y gwasanaeth a gynlluniwyd a'r angen gwirioneddol, gan leihau effeithlonrwydd a gwerth am arian.

Cefnogaeth benodol i'r Bil

40. Ar ôl canlyniad y balot cychwynnol, er mwyn i'r broses allu symud ymlaen i'r cam o geisio cydsyniad y Senedd i ddatblygu a chyflwyno Bil, ymgynghorwyd yn

gyntaf â'r grwpiau a ganlyn, a chafwyd cefnogaeth ganddynt:

- Cymdeithas Pobl Fyddar Prydain yng Nghymru - 2021
- Sense - Mai 2024
- Clwb Ffilm Byddar - Mai 2024
- Centre of Sign-Sight-Sound - Mai 2024
- Deaf Gathering 2024 - Mai 2024
- Ein Byd Gweledol - Mai 2024
- Clwb Pobl Fyddar Llanelli - Mai 2024
- Sawl unigolyn byddar - Mai 2024
- Sawl dehonglwr iaith arwyddion cofrestredig - Mai 2024

41. Cynhelir ymgynghoriad manylach i lywio gwaith datblygu'r Bil ymhellach os bydd y Senedd yn cydsynio y dylai'r cynnig symud ymlaen i'r cam nesaf, a fydd yn cynnwys ystod eang o randdeiliaid, heb fod yn gyfyngedig i'r rhai sydd eisoes wedi nodi awydd i gymryd rhan mewn ymgynghoriad ychwanegol.

Asesiad cychwynnol o unrhyw gostau a/neu arbedion sy'n deillio o'r Bil (Rheol Sefydlog 26.91A(iv))

42. O dan Reol Sefydlog 26.91A(iv), mae'n ofynnol gwneud asesiad cychwynnol o unrhyw gostau a/neu arbedion sy'n deillio o'r Bil. Rwyf wedi nodi'r prif opsiynau y byddaf yn eu hystyried o ran sut y caiff y Bil hwn ei ddatblygu, ond fy mwriad fyddai cyfyngu goblygiadau'r Bil o ran costau gymaint â phosibl a sicrhau ar yr un pryd ei fod yn cyflawni'r amcanion a nodwyd, gan ostwng y pwysau ariannol ar wasanaethau statudol drwy gyflawni'r amcanion penodol hynny.

43. Wrth ddatblygu'r Bil, bydd yn bwysig gweithio gyda rhanddeiliaid i lywio ei ddatblygiad, gan sicrhau cymaint o fanteision â phosibl tra hefyd yn sicrhau cyn lleied o effaith â phosibl o ran adnoddau. Felly, byddaf yn ymchwilio'n fwy manwl i'r effeithiau i helpu i lywio'r asesiad o'r effaith a gaiff ei gyflwyno gyda'r Bil hwn os bydd y bledlais ar ganiatâd i fwrw ymlaen yn llwyddiannus.

44. Dyma'r prif feysydd posibl y gallai costau a manteision fod yn gysylltiedig â hwy ar ôl cyflwyno'r Bil:

- Sefydlu Comisiynydd Iaith Arwyddion Prydain a phanel cynghori gyda chefnogaeth weinyddol;
- Llunio safonau Iaith Arwyddion Prydain;
- Darparu canllawiau a phroses i gyrff cyhoeddus eu dilyn i hyrwyddo a hwyluso BSL;

- Costau ychwanegol i gyrrff cyhoeddus a Llywodraeth Cymru o ran adrodd ar eu defnydd o BSL;
- Adroddiad blynyddol gan Lywodraeth Cymru;
- Sefydlu gweithdrefn ar gyfer ymchwilio i gwynion; a
- Llunio adroddiadau bob pum mlynedd ar sefyllfa BSL.

45. Nid yw'n bosibl darparu crynodeb cyffredinol o gostau amcangyfrifedig y Bil, ond mewn rhai achosion mae'n bosibl rhoi syniad o rai o'r meysydd lle gallai costau ostwng yn ogystal ag amcangyfrif cynnar o rychwant posibl y costau cysylltiedig.

46. Bydd y gwaith o ddatblygu'r Bil Drafft yn cynnwys edrych ar yr opsiynau o ran y swyddogaethau a'r cymorth y byddai eu hangen ar Gomisiynydd Iaith Arwyddion Prydain. Gall hyn ddylanwadu ar sut y caiff swyddfa o'r fath ei sefydlu a'r adnoddau sydd ar gael ar ei chyfer. Yn hytrach nag amcangyfrif cost swyddfa Comisiynydd Iaith Arwyddion Prydain, ar gyfer yr amcangyfrif cychwynnol hwn o'r effeithiau ariannol rydym wedi ystyried y swyddogaethau a fydd yn cael eu cyflawni ac amcangyfrif bras o'r costau i gyflawni'r swyddogaethau neu'r tasgau hyn. At ddibenion yr amcangyfrif cynnar hwn o'r costau, mae'n anodd gwahaniaethu rhwng costau staff y swyddfa a chostau staff Llywodraeth Cymru. Enghraifft o gorff hyd braich a sefydlwyd gan Lywodraeth Cymru sydd â chylch gwaith a llwyth gwaith llawer ehangach yw swyddfa Comisiynydd Plant Cymru. Mae cyfrifon diweddaraf y swyddfa hon, sef y cyfrifon ar gyfer [2022-23](#), yn nodi gwariant o tua £1.7 miliwn ar gyfer y swyddfa gyfan. Fodd bynnag, byddai'r costau i Gomisiynydd Iaith Arwyddion Prydain gryn dipyn yn llai na hyn oherwydd y byddai'r cylch gwaith a'r swyddogaethau yn fwy cyfyng.

47. Er nad oedd [Bil Iaith Arwyddion Prydain \(BSL\) Llywodraeth yr Alban](#) yn cynnwys cynigion ar gyfer Comisiynydd BSL, mae'r ddeddfwriaeth hon yn cynnig yr amcangyfrif cychwynnol gorau o gostau posibl y Bil hwn. Mae diwygiadau wedi'u gwneud i addasu'r ffigurau yn y Bil gan Lywodraeth yr Alban o gostau ar gyfer 2016-17 i gostau ar gyfer 2024-25, gan ddefnyddio'r datchwyddwr cynnyrch domestig gros tra hefyd yn ystyried y farn bod costau llywodraeth leol yn **debygol o fod yn uwch** na'r ffigurau a nodwyd yn yr amcangyfrif cychwynnol yn y Bil gan Lywodraeth yr Alban.

48. Gan ddefnyddio Bil Llywodraeth yr Alban fel man cychwyn, gallai'r costau blynyddol i Lywodraeth Cymru o gyllido Grŵp Cyngori Cenedlaethol BSL i gefnogi'r gwaith o ddatblygu safonau a chanllawiau, ac o weithredu'r Bil, fod tua £250,000 y flwyddyn.

49. Gallai costau cynnal ymgynghoriad ar y safonau a'u cyfieithu fod tua £150,000, gan dybio bod y costau'n debyg i'r costau a amcangyfrifwyd ar gyfer y gwaith cyfatebol ar y [Cynllun Cenedlaethol yn y Bil gan Lywodraeth yr Alban](#). Byddai'r costau hyn yn gysylltiedig â chyfanswm y costau yn ystod y 5 mlynedd gyntaf ar ôl

cyflwyno'r ddeddfwriaeth, felly nid costau blynyddol mohonynt.

50. Amcangyfrif cyffredinol o gost llunio cynlluniau BSL ac adolygu perfformiad cyrff cyhoeddus wrth iddynt adrodd ar eu defnydd o BSL, yn seiliedig ar Fil Llywodraeth yr Alban, fyddai tua £790,000 y flwyddyn yn ystod y 5 mlynedd cyntaf, gyda chostau is yn y blynyddoedd dilynol. Amcangyfrifir mai'r costau cysylltiedig i Lywodraeth Cymru fyddai rhwng £25,000 a £45,000 y flwyddyn. Fel rhan o'r gwaith o ddatblygu'r Bil, byddai gwaith yn cael ei wneud i weld sut y gellid integreiddio'r broses adrodd ac asesu i mewn i'r gofynion adrodd presennol ar gyfer cyrff cyhoeddus.
51. Byddai'n anodd amcangyfrif y costau sy'n gysylltiedig â chyflwyno gweithdrefn ar gyfer ymchwilio i gwynion, oherwydd y bydd angen datblygu'r polisi a gwneud cymariaethau o ran sut y bydd y drefn newydd yn wahanol i'r systemau presennol.
52. Bydd cost gweithredu cynnwys y strategaeth a'r cynlluniau cysylltiedig yn dibynnu ar natur y cynnwys hwn o gymharu â chost cynigion a strategaethau cyfredol Llywodraeth Cymru. Fel man cychwyn, gellid defnyddio costau yr aethpwyd iddynt eisoes gan Lywodraeth Cymru i ariannu'r gwaith o ddatblygu'r strategaethau newydd a gynigir yn y Memorandwm Esboniadol hwn. Byddwn yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru a'r sectorau cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat i sicrhau bod y gwaith o ddatblygu'r Bil yn costio cyn lleied â phosibl ond yn sicrhau'r effaith fwyaf posibl o ran polisi.
53. Hefyd, byddai gwaith ymchwil yn cael ei wneud a phroses ymgynghori â rhanddeiliaid yn cael ei chynnal i nodi a mesur effaith unrhyw ganlyniadau nas rhagwelwyd sy'n deillio o'r Bil wrth iddo gael ei ddatblygu, a bydd hyn yn rhan o Femorandwm Esboniadol llawn i gyd-fynd â Bil Drafft dilynol.
54. Nid yw'n bosibl ychwaith amcangyfrif manteision cost y Bil nes bod y polisi wedi'i ddatblygu.

Atodiad: Cefndir cyfreithiol y cynnig

Cymhwysedd deddfwriaethol

O dan [Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006](#), mae cyfle cyfartal yn fater a gedwir yn ôl gan Senedd y DU. Fodd bynnag, gall Bil BSL (Cymru) fod o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd os yw'n gysylltiedig â'r eithriadau perthnasol a restrir yn y Ddeddf. Ceir rhagor o fanylion isod:

Mae [paragraff 187 o Atodlen 7A i Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006](#) yn nodi bod cyfle cyfartal yn fater a gedwir yn ôl, yn amodol ar eithriadau. Mae cyfle cyfartal yn golygu atal, dileu neu reoleiddio gwahaniaethu rhwng personau ar sail rhyw neu statws priodasol; ar sail hil, neu ar sail anabledd, oedran, cyfeiriadedd rhywiol neu darddiad cymdeithasol; neu rinweddau personol eraill, gan gynnwys credoau neu farn, megis credoau crefyddol neu farn wleidyddol, ond heb gynnwys iaith.

Yn ôl [adran 6 o Deddf Cydraddoldeb 2010](#), mae gan berson anabledd os oes gan y person hwnnw nam corfforol neu feddyliol sy'n cael effaith niweidiol sylweddol a hirdymor ar ei allu i wneud gweithgareddau arferol o ddydd i ddydd. Gall pobl sy'n dioddef o fyddardod neu golli clyw fod o fewn y diffiniad hwn, felly cânt eu hamddiffyn gan [Ddeddf Cydraddoldeb 2010](#).

Er bod cyfle cyfartal yn fater a gedwir yn ôl i raddau helaeth gan Ddeddf Llywodraeth Cymru, mae nifer o eithriadau a allai alluogi'r math o ddarpariaethau a amlinellir yn y cynnig hwn. Mae'r eithriadau i'r mater a gedwir yn ôl sydd wedi'u rhestru ym mharagraff 187 yn cynnwys (Saesneg yn unig):

- The encouragement (other than by prohibition or regulation) of equal opportunities, and in particular of the observance of the equal opportunity requirements.
- Imposing duties on any devolved Welsh authority to make arrangements with a view to securing that its functions are carried out with due regard to the need to meet the equal opportunity requirements.
- Equal opportunities in relation to the functions of any devolved Welsh authority, other than a function that relates to the inclusion of persons in non-executive posts on boards of devolved Welsh authorities. The provision falling within this exception does not include any modification of the Equality Act 2010, or of any subordinate legislation made under that Act, but does include:
 - a) provision that supplements or is otherwise additional to provision made by that Act;

- b) in particular, provision imposing a requirement to take action which that Act does not prohibit;
- c) provision that reproduces or applies an enactment contained in that Act, with or without modification, without affecting the enactment as it applies for the purposes of that Act.

Mae eithriadau i faterion a gedwir yn ôl o fewn cymhwysedd deddfwriaethol y Senedd. Felly, i'r graddau y gall y cynigion yn y Bil fod yn gysylltiedig â chyfle cyfartal fel mater a gedwir yn ôl, caiff y cynigion hyn eu drafftio mewn ffordd sy'n golygu eu bod yn cyd-fynd â'r eithriadau i sicrhau eu bod o fewn cymhwysedd.

Deddf Cydraddoldeb 2010

Mae [Deddf Cydraddoldeb 2010](#) yn gwahardd gwahaniaethu (uniongyrchol ac anuniongyrchol) ar ystod o seiliau, gan gynnwys anabled.

Mae Deddf Cydraddoldeb 2010 hefyd yn gosod dyletswydd i wneud addasiadau rhesymol ar gyfer pobl anabl ar draws ystod eang o sectorau yng Nghymru, Lloegr a'r Alban. Felly, mae'n bosibl y bydd yn ofynnol i sefydliadau'r sector cyhoeddus ddefnyddio laith Arwyddion Prydain mewn rhai amgylchiadau, gan gynnwys pan fydd y sector cyhoeddus yn cydymffurfio â dyletswydd cydraddoldeb y sector cyhoeddus o dan y Ddeddf honno.

Deddf Iaith Arwyddion Prydain 2022

Mae [Deddf Iaith Arwyddion Prydain 2022](#) y DU yn cydnabod bod Iaith Arwyddion Prydain yn un o ieithoedd Cymru, Lloegr a'r Alban. Mae'n ei gwneud yn ofynnol i'r Ysgrifennydd Gwladol gyhoeddi adroddiad ar y camau i hyrwyddo a hwyluso'r defnydd o iaith Arwyddion Prydain gan adrannau gweinidogol y Llywodraeth. Mae Deddf 2022 hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i ganllawiau gael eu cyhoeddi mewn perthynas ag iaith Arwyddion Prydain.

Er bod Deddf y DU yn rhoi dyletswydd ar Lywodraeth y DU i lunio a chyhoeddi adroddiadau blynyddol ar BSL sy'n disgrifio'r hyn y mae adrannau'r Llywodraeth wedi'i wneud i hyrwyddo'r defnydd o BSL wrth gyfathrebu â'r cyhoedd, mae Bil y DU yn benodol yn eithrio adrodd ar faterion sydd wedi'u datganoli i Gymru a'r Alban. Nid yw'r Bil yn ymestyn y ddyletswydd adrodd neu'r ddyletswydd i lunio canllawiau i Lywodraeth Cymru a Llywodraeth yr Alban.

Felly, mae'r Bil hwn, sy'n trafod yr angen am Ddeddf BSL benodol i Gymru, yn ceisio mynd i'r afael â hyn.

Deddf Iaith Arwyddion Prydain (Yr Alban) 2025

Nod [Deddf BSL \(Yr Alban\) 2015](#) yw hyrwyddo'r defnydd o BSL, a mynediad at yr iaith, drwy ei gwneud yn ofynnol i Lywodraeth yr Alban lunio cynllun BSL cenedlaethol.

Er enghraifft, mae [Cynllun Cenedlaethol Llywodraeth yr Alban ar gyfer 2017-2023](#) yn nodi deg nod hirdymor ar gyfer BSL yn yr Alban – gan gwmpasu meysydd fel y blynyddoedd cynnar ac addysg, iechyd ac iechyd meddwl, cyfiawnder a'r celfyddydau – ac yn disgrifio dros 70 o gamau gweithredu y bydd Llywodraeth yr Alban yn eu cymryd i wneud cynnydd ar y nodau hyn. Mae'r camau gweithredu hyn yn cynnwys: dileu'r rhwystrau sy'n atal defnyddwyr BSL rhag dod yn athrawon; datblygu cymwysterau drwy gyfrwng BSL; gwella mynediad at ofal iechyd a gwasanaethau iechyd meddwl drwy gyfrwng BSL; sicrhau bod cyrsiau cyflogaeth a hyfforddiant a ariennir gan y Llywodraeth yn hygyrch i ddefnyddwyr BSL.

Mae'r darpariaethau eraill yn y Ddeddf yn cynnwys:

- Ei gwneud yn ofynnol i'r Llywodraeth ddynodi Gweinidog sydd â'r prif gyfrifoldeb am BSL, gan wella atebolrwydd am weithredu'r Cynlluniau BSL;
- Ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau cyhoeddus gyhoeddi datganiadau BSL, gan amlinellu sut y byddant yn cyflawni'r camau gweithredu sydd wedi'u cynnwys yn y cynllun cenedlaethol ac yn gwella hygyrchedd gwasanaethau a gwybodaeth;
- Ei gwneud yn ofynnol i Adolygiad Perfformiad ar BSL gael ei gyhoeddi, sy'n amlinellu'r cynnydd a wnaed o ran hyrwyddo'r defnydd o BSL. Mae'r adolygiad hefyd yn ei gwneud yn ofynnol i gyrff cyhoeddus nodi pa mor hygyrch yw eu gwasanaethau i ddefnyddwyr BSL, yn ogystal â nodi cyfleoedd i ddatblygu'r defnydd o BSL;
- Sefydlu Grŵp Cynghori Cenedlaethol BSL i hybu gwaith ymgysylltu â defnyddwyr BSL. Fodd bynnag, mae Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar a Thrwu eu Clyw⁸ wedi awgrymu y dylai unrhyw grŵp cynghori cenedlaethol sy'n cael ei sefydlu yng Nghymru ymgysylltu â'r gymuned F/fyddar ehangach, yn ogystal â phobl â nam ar eu clyw a defnyddwyr BSL. Yn y cyfamser, mae'r Athro Graham Turner o Brifysgol Heriot-Watt eisoes wedi awgrymu sefydlu 'Senedd Arwyddo' fel math o 'Gynulliad Dinasyddion Byddar' i wella'r broses ymgysylltu.⁹

⁸ Sefydliad Cenedlaethol Brenhinol Pobl Fyddar a Thrwu eu Clyw, *Gohebiaeth a ddaeth i law drwy e-bost*, 18 Chwefror 2021.

⁹ Dr Steven Emery, *Gohebiaeth a ddaeth i law drwy e-bost*, 19 Chwefror